**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Chwefror 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | S J Gallagher |
| D W Helliwell | B Hopkins | L James |
| M A Langstone | | L J Tyler-Lloyd |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Jennifer Raynor | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |
| Brian roles | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M Durke

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

3 **Llythyrau a'r Cofnodion**

Adolygodd y Panel y llythyr a chytuno ar y cofnodion.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 **Craffu ar y gyllideb flynyddol: am ei bod yn ymwneud â materion br addysg**

Daeth Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, y Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg i'r cyfarfod i drafod y Gyllideb Flynyddol fel y mae'n ymwneud â materion addysg.

## 6 Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion

Ar ôl y drafodaeth ag Aelod y Cabinet a Swyddogion ar y Gyllideb Flynyddol gan ei bod yn ymwneud ag Addysg, cytunodd y Panel ar yr adborth canlynol; a fydd yn cael ei gynnwys yn ymateb Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid i'r Cabinet ar 18 Chwefror 2021.

- Roeddem yn fodlon ar y cyfan â chyllideb eleni fel y mae'n ymwneud â materion addysg.
- Rydym yn croesawu'r gwariant cyfalaf a'r cynnydd gros o 3.3% yn y gyllideb ysgolion dirprwyedig.
- Roeddem yn falch bod Addysg yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau Cyngor Abertawe.
- A oes darpariaeth yn y gyllideb i sicrhau bod unrhyw dreuliau a ysgwyddir gan yr ysgolion hynny a arhosodd ar agor drwy gydol cyfnod COVID-19 yn cael eu had-dalu?
- Gofynnwyd pa gynigion arbedion sydd mewn perthynas â Chludiant Ysgol. Dywedwyd wrthym y bydd y cynigion a fydd yn destun ymgynghori yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth. A ellir eu dosbarthu i'r Panel Craffu Addysg, unwaith y byddant ar gael?
- A yw cost ôl troed newydd posib ERW a chau strwythur presennol ERW wedi'i gynnwys yn y gyllideb?
- Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Ysgolion, Llywodraethwyr a'r Adran Addysg am eu gwaith rhagorol dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn enwedig sut maen nhw wedi rheoli'r heriau y mae'r cyfnod COVID-19 hwn wedi'u cyflwyno.

## 7 Cynllun Gwaith

- Bydd pedwar disgybl a Phennaeth Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt yn bresennol yng nghyfarfod y Panel ar 18 Mawrth i roi eu barn ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Mae adroddiad Estyn, 'Ymateb Addysg i'r pandemig' wedi'i drefnu i'w drafod yng nghyfarfod y Panel ar 22 Ebrill.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 pm